**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 20 MEDI 2019**

**BWRDD STRYDLUN A PHEIRIANNEG Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: R.G.Jones a/ac E.V.Latham (Cadeirydd)

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Lewis, D.Griffiths a/ac T.Davies

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 5 Gorffennaf 2019.

## 3. CLEFYD COED YNN

**Penderfyniadau:**

1. Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd i ddatblygu cynllun gweithredu gan gynnwys arolygon coed i nodi dosbarthiad coed, coed yr effeithiwyd arnynt a graddfa'r haint.

2. Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd i gymynu coed a chael gwared arnynt fel y bo angen yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon a'r asesiad risg cysylltiedig.

3. Y cyngor i gynyddu ymwybyddiaeth o afiechyd Clefyd Coed Ynn drwy gyfryngau cymdeithasol a sianelau eraill, ac annog aelodau'r cyhoedd i adrodd am goed nad ydynt yn ymddangos yn iach.

4. Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd i gysylltu â landlordiaid preifat y mae ganddynt goed ger priffyrdd cyhoeddus, llwybrau cerdded cyhoeddus ac eiddo'r cyngor.

5. Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd i ddod o hyd i gyllideb a phlannu coed newydd er mwyn lleihau'r effaith ar fioamrywiaeth a thirweddau lleol gan blannu rhywogaethau addas megis derw, bedw, gwern a masarnwydd.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Rheoli clefyd coed ynn ar draws y fwrdeistref sirol gan sicrhau bod y gwaith yn cael ei flaenoriaethu a'i wneud mewn da bryd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 4. ASESU HENEBION

**Penderfyniadau:**

1. Y cyngor i fabwysiadu'r polisi profi cerrig coffa a chofebau a gynhwysir yn Atodiad 2 yr adroddiad a gylchredwyd.

2. Ychwanegu'r polisi profi cerrig coffa at reolau a rheoliadau'r fynwent.

3. Rhoi dolen i'r polisi yn adran berthnasol gwefan y cyngor.

4. Dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Phennaeth Gofal Strydoedd wneud penderfyniadau ynghylch atgyweirio cerrig coffa/cofebau o arwyddocâd hanesyddol lle nad oes modd dod o hyd i'r perchennog.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Darparu ymagwedd glir a chyson at reoli cerrig coffa a chofebau ym mynwentydd yr awdurdod.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **PARCIO DROS GYFNOD Y NADOLIG 2019**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo parcio am ddim dros y Nadolig yng Nghastell-nedd, Port Talbot a meysydd parcio talu ac arddangos Pontardawe o ddydd Sadwrn 14 Rhagfyr 2019 i ddydd Mercher 1 Ionawr 2020 (ac eithrio meysydd parcio'r Gnoll, Parc Gwledig Coedwig Afan a glan môr Aberafan).

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn denu siopwyr Nadolig i ganol ein trefi i gefnogi busnesau lleol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniadau:**

Ychwanegu'r cwmnïau canlynol at y rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categorïau** |
|---|---|
| MS Group t/a Architectural Stone | 25, 36 |
| Alternative Power Solutions | 111 |
| A & R Cleaning Services | 105 |
| Ark Fencing & Landscaping supplies | 84 |
| Bell Decorating Group Ltd | 20 |
| Borley Engineering Services Ltd t/a CMB West Ltd | 39, 40 |
| C K Communications Ltd | 3, 47 |
| Core Surveys Ltd | 31 |

| | |
|---|---|
| Glebe Contractors | 77 |
| ICE Electrical | 41, 42, 43, 44 |
| J2R Demolition Ltd | 31, 79 |
| Leftfield Environmental Ltd | 31 |
| Lewis Ashley Services Ltd | 10 |
| Lucion Environmental Ltd | 31 |
| McAvoy Group Ltd | 10, 111 |
| Metric Group Ltd | 110, 111 |
| Nationwide Platforms Ltd | 2, 9, 111 |
| Nicholls Colton Group Ltd | 78, 111 |
| Novus Property Solutions Ltd | 12, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 22, 25, 26, 35, 36 |
| Oakdale Haulage Ltd | 111 |
| Pearson's Landscapes Ltd | 64, 77 |
| Phillips Services (Wales) Ltd | 47, 48, 57, 62, 109, 111 |
| Premier Modular Ltd | 10 |
| R Hills Construction Ltd | 71, 76, 77, 84, 85, 89 |
| Smart Platforms Rental Ltd | 88, 98 |
| S R Middleton & Son Roofing Ltd | 17b, 17d, 17e |
| Tom Pritchard Contracting Ltd | 2, 6, 77, 79, 85, 102 |
| Coating & Blasting Services Ltd | 17e, 25, 36, 89, 105, 111 |
| Warmserve Plumbing & Heating L | 37, 38, 45, 46 |
| Brushdale Environmental Ltd | 111 |

Tynnu enw'r cwmni canlynol oddi ar y rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categorïau** |
|---|---|
| Tremco Roofing UK Ltd | 17a, 17b, 17c, 17d, 17e |

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Cadw rhestr o Gontractwyr Cymeradwy mor gyfredol â phosib, sicrhau bod proses gaffael gystadleuol a gallu cyflenwi rhestr o Gontractwyr Cymeradwy i'w gwahodd i dendro o fewn y categori perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL PENYARD, MYNACHLOG NEDD, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Gwrthod y gwrthwynebiad yn rhannol a diwygio'r Gorchymyn Traffig (Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol Penyard, Mynachlog Nedd, Castell-nedd) fel a nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad a gylchredwyd, a'i ail hysbysebu fel uchod. Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gellir gweithredu'r gorchymyn a rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar yr eitem hon.

8. **GORCHYMYN TRAFFIG - PENSCYNOR, CIL-FFRIW**

**Penderfyniad:**

Hysbysebu'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dim Aros, Llwytho na Dadlwytho ar Unrhyw Adeg a Dim Aros ar Unrhyw Adeg ym Mhenscynor, Aberdulais ac, os na fydd unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r gorchmynion ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y ffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

9. **GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL FAWR, BRYNCOCH, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniadau:**

1. Gwrthwynebu'r Gorchymyn Traffig ar y lôn rhwng yr Heol Fawr a Rhodfa Furzeland, Bryncoch, Castell-nedd, a'i dynnu oddi ar y cynllun.

2. Lleihau maint y marciau ar gyfer y safle bws ar yr Heol Fawr, Bryncoch fel nad ydynt yn estyn ar draws dramwyfa'r preswylwyr (fel a nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad a gylchredwyd).

3. Gosod marc 'H' ar y ffordd ar hyd tramwyfeydd rhif 158 a 158A Heol Fawr, Bryncoch, yn unol â chais y Cynghorydd lleol.

4. Rhoi'r Gorchymyn Traffig ar waith y tu allan i'r archfarchnad ar yr Heol Fawr, Bryncoch, fel yr hysbysebwyd.

5. Hysbysu'r gwrthwynebwyr o'r penderfyniad.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y briffordd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

10. **GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL BURROWS, SGIWEN**

**Penderfyniad:**

Hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dim Aros, Dim Llwytho na Dadlwytho ar Unrhyw Adeg ar Heol Burrows, Sgiwen, Castell-nedd (fel y manylwyd yn Atodiad A yr adroddiad a gylchredwyd) ac, yn amodol ar beidio â derbyn gwrthwynebiadau, ac yn amodol ar gymeradwyo'r grant gan Gronfa Gymunedol yr Aelodau, rhoi'r gorchmynion ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

11. **GORCHYMYN TRAFFIG - YSTALYFERA**

**Penderfyniadau:**

1. Tynnu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arfaethedig ar gyfer y mesurau tawelu traffig (clustogau arafu) a'r parth 20mya yn Ystalyfera yn ôl, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad a gylchredwyd, a rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

2. Hysbysu Llywodraeth Cymru am adborth yr ymgynghoriad cymunedol a thynnu'r cynllun yn ôl o'r rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, mewn perthynas â'r parth 20mya.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Oherwydd y gwrthwynebiadau sylweddol a dderbyniwyd gan y gymuned ynghylch y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

12. **GORCHYMYN TRAFFIG - A48 MARGAM, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (terfyn cyflymder 40mya ar yr A48 Margam, Port Talbot) ac, os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r gorchymyn ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Lleihau cyflymder cerbydau er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

13. **GORCHYMYN TRAFFIG - HEOL Y COEDCAE, Y CLOS A GWERNANT, CWMLLYNFELL**

**Penderfyniad:**

Hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dim Aros ar Unrhyw Adeg a'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Clustogau Arafu yn Heol y Coedcae, Y Clos a Gwenrant, Cwmllynfell (fel y manylwyd arnynt yn Atodiad A yr adroddiad a gylchredwyd) ac, os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, weithredu'r gorchmynion yn amodol ar gymeradwyaeth arian grant o Gronfa Gymunedol yr Aelodau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio anystyriol a lleihau cyflymder traffig er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

14. **GORCHYMYN TRAFFIG - RHODFA'R PARC, SGIWEN**

**Penderfyniad:**

Gosod Lle Parcio Unigol i Berson Anabl yn Rhif 52, Rhodfa'r Parc, Sgiwen SA10 6SA fel yr hysbyswyd, gwrthod y gwrthwynebiad a rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cynhaliwyd asesiad meddygol a chanfuwyd bod yr asesiad gwreiddiol yn gadarn ac felly'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Lle Parcio Unigol i Berson Anabl.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

15. **GORCHYMYN TRAFFIG - HILLSIDE, CWRT HIGHTBURY, RHODFA COOK REES A HEOL WESTERNMOOR, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Rhoi Gorchymyn Traffig Dim Aros ar Unrhyw Adeg yn Hillside, Cwrt Highbury, Rhodfa Cook Rees a Heol Westernmoor, Castell-nedd (ond tua 6m yn llai ar ochr ogleddol Hillside fel a nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad a gylchredwyd), a rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu amgylchedd mwy diogel i breswylwyr, modurwyr, cerddwyr a beicwyr.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

16. **GORCHYMYN TRAFFIG - BRYNCOCH, CASTELL-NEDD**

**Penderfyniadau:**

1. Diwygio Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar yr Heol Fawr, Rhodfa Furzeland. Clôs Redwood a Chlôs Firwood, Bryncoch, Castell-nedd fel a nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad a gylchredwyd a'i roi ar waith ar y safle.

2. Hepgor y marciau safle bws arfaethedig a'r Gorchymyn Traffig ar ochr orllewinol yr Heol Fawr, Bryncoch, o'r cynllun.

3. Hysbysu'r gwrthwynebwyr o'r penderfyniad.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y briffordd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

17. **GORCHYMYN TRAFFIG - RHODFA SEAWARD A CHLÔS SEAWARD, SANDFIELDS, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar Rodfa Seaward a Chlôs Seaward, Sandfields, Port Talbot ac, os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r gorchymyn ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

18. **GORCHYMYN TRAFFIG - RHODFA SAN ILLTYD, BAGLAN, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dim Aros ar Unrhyw Adeg ar Rodfa Illtyd Sant, Baglan, Port Talbot ac, os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, rhoi'r gorchymyn ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

19. **GORCHYMYN TRAFFIG - TYN Y TWR, HEOL BWLCH, BAGLAN**

**Penderfyniad:**

Hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dim Aros, Dim Llwytho na Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn Nhyn y Twr, Heol Bwlch, Baglan ac, os nad oes unrhyw wrthwynebiadau ac yn amodol ar gymeradwyaeth arian grant o Gronfa Gymunedol yr Aelodau, rhoi'r gorchmynion ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Atal parcio anystyriol er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

20. **GORCHYMYN TRAFFIG - LLANSAWEL, MELIN A CHASTELL-NEDD**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer parth 20mya a chlustogau arafu yn Llansawel, Melin a Chastell-nedd (fel y manylwyd arnynt yn Atodiadau A, B a C yr adroddiad a gylchredwyd) a rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod cyflymder cerbydau'n cael ei leihau er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

**CADEIRYDD**